

Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Elaine Edwards

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

e-bost / rhif ffôn: elaine@athrawon.com / 01970 639950

Eich cyfeiriad: Prif Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **15 Rhagfyr 2014** at

Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu llenwch y ffurflen yn electronig a'i hanfon drwy'r

e-bost: earlyyears@wales.gsi.gov.uk

Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r cynigion a'r argymhellion a amlinellir yn y *Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru*. Mae rhifau'r tudalennau a nodir ar ôl bob cwestiwn yn cyfeirio at y ddogfen honno.

1. Arweinyddiaeth

Nodwyd yn argymhelliad 14 o'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen y dylid sefydlu:

hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cynghori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.

Cwestiwn 1 – A ydych yn cytuno y dylai fod hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen? (t 21)

Cytuno

Anghytuno

**Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno** X

Sylwadau ychwanegol

Mae UCAC yn cefnogi'r egwyddor o broffesiynoli ac uwchsgilio ymarferwyr ac arweinyddion yn y sector Blynyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer y plant a sicrhau llwybr gyrfa addas ar gyfer yr ymarferwyr.

Mae, felly, yn brodol i arweinyddion dderbyn hyfforddiant sy'n gyson ei lefel ym mhob math o sefydliad, lleoliadau nas cynhelir a sefydliadau a gynhelir.

Gall disgwyl i bennaethiad ysgolion dderbyn hyfforddiant gorfodol fod yn amrhiodol. Mae Penaethiaid eisoes yn ennill cymhwyster proffesiynol perthnasol i'w swydd. Byddai darparu hyfforddiant gwirfoddol ar lefel briodol yn fwy addas. Dylid, hefyd, ystyried maint ysgolion a'r modd y mae cyfrifoldebau wedi eu rhannu ynddynt – byddai'n fwy priodol disgwyl i'r person â chyfrifoldeb am y Cyfnod Sylfaen dderbyn hyfforddiant gorfodol. Dylai, o leiaf fod yn hawl iddynt gael mynediad at yr hyfforddiant byddai o fudd iddynt.

Gellid argymhell ei fod yn angenrheidiol i o leiaf un aelod o staff yr ysgol, neu un aelod o dim rheoli'r ysgol dderbyn hyfforddiant Blynyddoedd Cynnar addas.

Byddai'n fanteisiol iawn, hefyd, i wella dealltwriaeth athrawon am theorïau a dulliau addysgu a dysgu yn y Blynyddoedd Cynnar. Ni wnaed hyn yn effeithiol wrth gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio at weithlu amlasiantaethol ac yn cydnabod bod y dull hyfforddi yn wahanol i weithwyr lechyd ac Addysg. Mae lle i gredu bod angen i'r hyfforddiant hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth proffesiynol.

Cwestiwn 2 – A ydych yn cytuno y byddai'r model o ganolfan ddysgu sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun drafft 10 mlynedd yn annog mwy o gydweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac yn helpu i gefnogi rhwydwaith sy'n gwella ei hun? (t 24)

Cytuno

X

Anghytuno

**Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno**

Sylwadau ychwanegol

Mae'r bwriad i sefydlu Canolfan Ddysgu'r Blynyddoedd Cynnar i'w groesawu.

Tra bo darpariaeth gefnogol ar gael ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar mae llawer o'r strwythurau a'r cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a DPP ar gyfer gweithlu Blynyddoedd Cynnar ysgolion wedi ei gollu yn y blynyddoedd diwethaf (o ganlyniad i ddiffyg cyllido a diffyg gweledigaeth glir gan y Llywodraeth am DPP). Mae hyn yn ddiffyg sylweddol ac fe ddylid edrych yn wrthrychol ar adfer y sefyllfa wrth ddatblygu'r Ganolfan.

Fe fydd yn rhaid bod yn hynod o ystyriol o amgylchiadau ac amodau gwaith ymarferwyr mewn lleoliadau nas gynhelir.

Rhaid cofio bod yna gost i uwchraddio sgilau ac mae angen i'r Llywodraeth fuddsoddi yn hyn.

Cwestiwn 3 – Ystyriwch Argymhellion 15 ac 16 Adroddiad Graham.

Argymhelliad 15: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rheoliadau yn cael eu diwygio er mwyn mynnu bod arweinwyr pob lleoliad a gofrestrir o'r newydd yn meddu ar gymwysterau lefel 5 priodol o 2018 ymlaen, ac arweinwyr pob lleoliad arall o 2020 ymlaen.

Argymhelliad 16: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau mwy (a gofrestrwyd ar gyfer 20 o blant neu ragor) gael rheolwr ychwanegol. Dylai'r rheolwr hwnnw hefyd feddu ar gymhwyster lefel 5 priodol (a bod wedi cwblhau modiwlau penodol ar arweinyddiaeth) erbyn 2020, a chymhwyster lefel 6 erbyn 2024.

A ydych yn cytuno â'r argymhellion hyn? (t 26)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno

Sylwadau ychwanegol

Mae UCAC yn cynrychioli athrawon cymwysedig a darlithwyr. Nid ydym yn cynrychioli gweithwyr mewn lleoliadau gofal plant a chlychoedd meithrin, onibai eu bod yn athrawon cymwysedig.

Serch hynny, fe ragwelir y byddai creu Rheoliadau o'r math yma yn creu problemau recriwtio difrifol o fewn y sector. Mae'r llinell amser, hefyd, yn arbennig o dynn i ganiatau dilyn a chwblhau cyrsiau addas.

Tybiwn y byddai argymhelliad 16 yn anodd iawn i'w gyflawni, oherwydd yr angen am fwy o bobl gyda chymhwyster lefel 5 a'r angen i ariannu'r hyfforddiant a'r swyddi.

Er bod yr argymhellion hyn am swyddi Rheolwyr Ychwanegol (yn ogystal â'r pwyslais ar rannu arfer gorau a hunan-wella sydd yn y ddogfen) yn ymddangos yn synhwyrol, bydd gwireddu'r uchelgais yn anodd os na fydd cydnabyddiaeth ariannol addas wrth gyllido darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar a chyllid penodol ar gyfer hyfforddiant o'r safon uchaf.

Os disgwylir i'r ymarferwyr blynyddoedd cynnar dalu eu hun am ddilyn cwrs sydd yn arwain at gymhwyster bydd hyn yn her ychwanegol – yn enwedig gan ystyried y cyflogau isel sydd gan nifer fawr sydd yn gweithio gyda phlant bach fel cynorthwyywyr dosbarth neu yn y sector gofal plant.

Bydd hefyd angen sicrhau digon o gyfleoedd ar gyfer hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ledled Cymru ac ar bob lefel. Ar hyn o bryd y Mudiad Meithrin a Phrifysgol y Drindod Dewi Sant yw'r prif ddarparwyr cyfrwng Cymraeg. Mae heriau, felly, ar draws Cymru i roi mynediad at brofiadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i ymarferwyr o ran hyfforddiant.

Cwestiwn 4 – A ydych yn cytuno y byddai'r cymhwyster lefel 6 arfaethedig yn ddull a fyddai'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ymarferwyr allu arwain a darparu arfer o ansawdd uchel? (t 27)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno

X

Sylwadau ychwanegol

Byddai'n dibynnu ar gynnwys a safon yr hyfforddiant byddai'n arwain at y fath gymhwyster ac ar ba sgiliau neu wybodaeth ychwanegol byddai'n cael eu meithrin / cyflwyno.

Weithiau gall y gallu i arwain lleoliad ddibynnu ar atur yr unigolyn a'r DPP bydd ar gael

iddynt.

2. Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel

Cwestiwn 5a – A ydych yn cytuno y byddai'n fuddiol pe byddai sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno yn cael eu hymestyn i gynnwys y gofynion a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth weithio ym mhob math o leoliadau'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae? (t 33)

Cytuno

X

Anghytuno

Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno

Sylwadau ychwanegol

Mae'n bwysig sicrhau bod y sawl sydd â diddordeb mewn gweithio yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael gwybodaeth am yr holl gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer gyrfa yn y maes.

Profiad wedi ei ennill ar gyfnodau'n gweithio mewn lleoliadau ac ysgolion fydd, yn y pendraw, yn rhoddi'r cyfleoedd gorau ar gyfer cadarnhau'r dyhead i weithio gyda phlant yn y Blynyddoedd Cynnar, ond mae rôl gan Gyrfa Cymru a'r Awdurdodau Lleol i ledaenu gwybodaeth am y llwybrau gyrfa sydd ar gael.

Mae gan bob ALL "Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu" (*Family Information Service*) dylaid darparu'r math o wybodaeth sydd angen i helpu unigolyn ddod i benderfyniad. Mae'r ALL yn cael ei ariannu i hyrwyddo cyfleoedd gweithio gyda phlant. Mae angen sicrhau bod gan y GGT yr holl wybodaeth perthnasol a bod unigolion yn ymwybodol o'r dewisiadau.

Mae cynnig cyfleoedd i drafod materion gydag ymarferwyr yn bwysig a chyfleoedd hefyd am brofiad gwaith perthnasol, fel y nodwyd.

Cwestiwn 5b – Os ydych yn cytuno, rhowch wybodaeth am sut fyddai orau i fynd ati i ymestyn y sesiynau hyn a'u cyflwyno? (t 33)

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 6 – A ydych yn cytuno mai proses ymsefydlu strwythuredig ddylai fod y cam cyntaf mewn cynllun datblygu personol ar gyfer pob newydd-ddyfodiad i'r sector ac y dylid cofnodi bod y broses hon wedi'i chwblhau mewn portffolio datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)? (t 33)

Cytuno

X

Anghytuno

**Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno**

Sylwadau ychwanegol

Cytuno i raddau, ond mae angen rhywbeth ychwanegol i broses tystiolaeth ar bapur/ portffolio fel sail y dystiolaeth.

Ni fydd cofnod unigolyn ar bapur, o riedrwydd, yn trosglwyddo tystiolaeth am y gallu i gyfathrebu gyda, annog a datblygu plant. Bydd elfen ddynol, megis cyfraniad mentor a barn am addasrwydd a galluoedd ymarferol wrth weithio gyda phlant yn allweddol wrth sicrhau ymarferwyr effeithiol.

Mae proses ymsefydlu strwythuredig, gyda mentor da yn rhan ohoni, yn gallu cynnig cefnogaeth lle bo angen a chyfle i ystyried a thrafod gydag unigolyn mwy profiadol. Mae yna gost i ddarparu mentoriaid a'u hyfforddi ac o ystyried yr heriau sydd wrth ddarparu mentoriaid i Athrawon Newydd Gymhwysu – yn enwedig sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg - mae'n debygol bydd heriau wrth ddarparu cefnogaeth o'r math i weithlu'r blynyddoedd cynnar yn gyfan gwbl.

Cwestiwn 7 – A ydych yn cytuno y dylid cynnig Tystysgrif Lefel Raddedig mewn Arweinyddiaeth mewn Arfer Plentynodod i gyd-fynd ag unrhyw gymhwyster Lefel 6 yn y dyfodol i alluogi graddedigion i ennill cymhwyster ar lefel briodol ac i ymarfer yn y sector wedi iddynt gwblhau eu gradd? (t 34)

Cytuno

X

Anghytuno

**Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno**

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 8a – A ydych yn cytuno â'r uchelgais o weld Lefel 3 mewn cymhwyster perthnasol fel y safon dderbyniol ar gyfer yr holl ymarferwyr yn y sector dros amser? (t 34)

Cytuno

X

Anghytuno

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 8b – A ydych yn cytuno â chyflwyno'r gofyniad hwn gam wrth gam, mewn dau gam dros gyfnod o 10 mlynedd? (t 34)

Cytuno

X

Anghytuno

**Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno**

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 9 – Yn eich barn chi, a ydy'n briodol i warchodwyr plant ennill cymhwyster Lefel 3 perthnasol cyn pen tair blynedd o ddyddiad eu cofrestru cychwynnol? (t 35)

Ydy

X

Nac ydy

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

3. Gwella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol

Cwestiwn 10 – A ydych yn cytuno y byddai'r gweithlu yn elwa ar set o egwyddorion CPD cyffredin a phortffolios ar-lein unigol i gofnodi dysgu a datblygu? (t 41)

Cytuno

X

Anghytuno

**Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno**

Sylwadau ychwanegol

Bydd datblygu 'llwybr datblygu' a'r portffolios ar lein yn adnoddau defnyddiol wrth uwchsgilio'r gweithlu Blynnyddoedd Cynnar ond dylid sicrhau nad yw'n broses or-fiwrocratiadd a chostus na'n creu llwyth gwaith gormodol.

Mae'n bwysig bod nifer o bethau'n cael proffil uchel yn yr egwyddorion cyffredin; rhai posibiliadau:

- sut mae plant yn dysgu
- datblygu sgiliau'n y Gymraeg
- gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg
- gweithio gyda phlant o gefndir di-freintiedig
- gweithio gyda phlant ag AAY
- ymdrinâ a phlant â phroblemau ymddygiad
- sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu
- hunan arfarnu
- gweithio fel aelod o dîm / dan gyfarwyddid, ac ati

Cwestiwn 11a – Yn eich barn chi, a ddylai fod yna system o gofrestru proffesiynol ar gyfer y sector nas cynhelir? (t 41)

Dylai

X

Na ddylai

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Ond mae angen sicrhau nad yw'r broses yn un bwirocrataidd nac yn un costus.

Cwestiwn 11b – Os dylai, sut y gellid monitro'r system hon? (t 41)

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 12a – Ystyriwch Argymhelliad 12 yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen, a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr ymchwil i effeithiau anfantais a thlodi a'r ffyrdd posibl o gau'r bwloch o ran cyflawniad. Dylai rhannu arfer da o'r ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hynny lle mae hyn yn gweithio'n dda fod yn rhan o'r hyfforddiant yn yr un modd ag ymchwil i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (ADC). Gellid gofyn i ysgolion a gynhelir neilltuo rhywfaint o'u Grant Amddifadedd Disgyblion (neu rywbeth tebyg) i ddatblygiad staff cymorth yma.

A fyddai hyfforddiant ar effaith anfantais o fudd i ymarferwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen? (t 44)

Byddai

X

Na fyddai

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Mae'r sylw a roddir yn yr adran yma i godi ymwybyddiaeth athrawon ac ymarferwyr o'r theoriau y tu cefn i ddulliau dysgu ac addysgu yn allweddol. Mae derbyn gwybodaeth perthnasol a hyfforddiant am effeithiau anfantais a thlodi a sut i fynd i'r afael â hwy ar draws y sector Blynyddoedd Cynnar yn bwysig ar gyfer llwyddiant y gyfundrefn addysg ar gyfer plant 3 – 7 oed.

Byddai'n gam pendant tuag at broffesiynoli'r gweithlu ym mhob lleoliad ac ysgol.

Mae beth sydd yn digwydd yn y cartref, hefyd, yn allweddol i ddatblygiad addysgol plentyn ac mae hybu dealltwriaeth rhieini o'u rôl hanfodol hwy yn holl bwysig.

Cwestiwn 12b – Pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddatblygu a darparu'r hyfforddiant hwn? (t 44)

Sylwadau ychwanegol

Gellid datblygu deunyddiau hyfforddiant ar y cyd rhwng Adrannau Addysg y Prifysgolion a Thimau Athrawon Cysylltiol y Blynyddoedd Cynnar yr ALI. Yr Athrawon Cysylltiol, hefyd, fyddai y dewis ar gyfer cyflwyno'r cyrsiau. Byddent yn sicrhau cyflwyniadau ar y lefel briodol i ystod profiad a gallu'r ymarferwyr.

Mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru, ac yn y De Ddwyrain yn arbennig, mae diffyg difrifol o athrawon cysylltiol sydd yn gallu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gwir angen cysondeb yn yr hyfforddiant / cyngor – clywn yn anecdotal am athrawon cysylltiol gwahanol yn ymdrin ag oeddrannau gwahanol yn y blynyddoedd cynnar yn rhoi cyngor gwahanol am fethodoleg dysgu, ac ati. Mae angen sicrhau cysondeb mewn methodoleg a safonau.

Cwestiwn 13 – A ydych yn cytuno ei bod hi'n bosibl y gallai'r 'dull cam wrth gam' arfaethedig o uwchsgilio helpu i ddiwallu awydd gweithlu y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i ddysgu a datblygu ymhellach? (t 44)

Cytuno

Anghytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno X

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 14 – Ystyriwch Argymhelliad 18 yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen, a oedd yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru:

Adolygu'r gymhareb oedolion i blant gyfredol mewn dosbarthiadau derbyn. Ar hyn o bryd mae'n 1:8. Cytunodd staff ysgolion cynradd, cynghorwyr ac arolygwyr y gellid ei chynyddu i 1:10 heb effeithio ar ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai ysgolion wneud cais am eithriad lle, er enghraifft, y'u lleolir mewn ardaloedd gwledig iawn neu lle mae ganddynt nifer sylweddol o blant ag anghenion ychwanegol fel AAA neu Gymraeg/Saesneg oherwydd ni fyddai'n ymarferol cynyddu'r gymhareb.

A ydych yn cytuno â'r argymhelliad hwn i newid y gymhareb oedolion i blant mewn dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion? (t 46)

Cytuno

Anghytuno

X

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Sylwadau ychwanegol

Mae'n bwysig sylweddoli mai hanfod llwyddiant yn y Blynyddoedd Cynnar ydi ymyriad pwrpasol oedolion yng ngweithgareddau'r plant. Bydd newid y gymhareb yn lleihau'r cyfle yma ac yn gam tuag yn ôl.

Nid yw realaeth cyllido'r gefnogaeth yn cyflawni disgwyliadau'r ffomwla 1:8 ar hyn o bryd ledled Cymru. Nid yw rhai ALI yn dyrannu cyllid ychwanegol hyd nes y bydd mwy na 4 plentyn tros luosrif 8 ychwanegol yn y dosbarth. Golyga hyn:

- ar adegau mae ysgolion eisoes tros nifer y gymhareb o 1:8 (e.e. dosbarth o 28 gyda 3 oedolyn). Yn y sefyllfa uchod byddai symud y gymhareb i 1:10 yn rhoi cyfle i'r amrywiad fod yn fwy
- bydd unrhyw gyllido rhannol yn amddifadu plant o'r gefnogaeth gyson y maent eu hangen neu yn creu problemau cyllidol ychwanegol wrth i'r sefydliad orfod talu'r gwahaniaeth rhwng y dyraniad a gwir gost cyflogi.

Gall tynnu cyllid oddi wrth gwaith uniongyrchol gyda'r plant ar gyfer datblygu staff gael effaith niweidiol. Rhaid derbyn bod cost ychwanegol yn anorfod wrth broffesiynoli'r gweithlu a bod angen arian penodol ar gyfer hyfforddiant.

Cwestiwn 15a – A ydych yn cytuno bod TGAU Gradd C, neu gymhwyster cyfwerth, yn lefel ofynnol briodol o sgiliau hanfodol ar gyfer aelodau'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae? (t 47)

Cytuno

X

Anghytuno

Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno

Sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 15b – A ddylai fod yn ofynnol i unigolion feddu ar y lefelau hyn o sgiliau pan fyddant yn ymuno â'r sector (yn hytrach na'u hennill wrth weithio, o fewn cyfnod penodol o amser)? (t 47)

Dylai

X

Na ddylai

Ddim yn siŵr

Sylwadau ychwanegol

Gyda'r uchelgais o weithlu â sgiliau lefel 3 fel isafawm, byddai disgwyl meddu ar gymhwysterau Gradd C TGAU neu Gymhwyster cyfatebol wrth ymuno â'r sector. Bydd yr unigolion yn gweithio gyda, a dylanwadu ar, blant o'r cychwyn cyntaf, felly mae angen lefel penodol o sgiliau arnynt cyn cychwyn. Ar y llaw arall, bydd yn cymryd rhai blynyddoedd cyn cyrraedd y nod.

Cwestiwn 16 – A ydych yn cytuno y byddai cefnogaeth iaith Gymraeg, fel a amlinellir yn y cynllun drafft hwn, yn helpu i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau/ysgolion? (t 48)

Cytuno

X

Anghytuno

Ddim yn cytuno
nac yn anghytuno

Sylwadau ychwanegol

Mae argymhellion y Cynllun Drafft yn gam i'r cyfeiriad cywir. Gan mai yn y Blynyddoedd Cynnar y mae medrau caffael iaith plant ar ei orau mae colli'r cyfle euraidd yma yn tansellio ymdrechion pellach mewn ysgolion i sicrhau bod plant yn dod yn rhugl.

Mae angen datblygu'r nifer o ddarparwyr o ansawdd sydd yn gallu cefnogi datblygiad y gweithlu trwy gyfrwng y Gymraeg – mae hyn yn allweddol. Unwaith eto, mae angen buddsoddiad ariannol ar gyfer hyn ac mae angen sicrhau cysondeb mewn safon ac argaeledd ar draws Cymru.

Cwestiwn 17 - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w cofnodi. Rhwch eich sylwadau yma:

Yn gyffredinol mae'r cynllun drafft yn uchelgeisiol ac nid yw hyn yn ddrwg o beth. Mae angen buddsoddiad ariannol a buddsoddiad o amser ymarferwyr er mwy gallu gwireddu'r uchelgais. Rhaid cofio, hefyd, pan fydd rhai cymwysterau'n orfodol, bod angen arian nid yn unig ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau, ond, hefyd, ar gyfer cydnabod gweithlu sydd â chymwysterau uwch ac, mewn rhai achosion, mwy o gyfrifoldebau.

Mae UCAC o'r farn mai athrawon cymwysedig yn unig dylai fod â chyfrifoldeb am addysgu dosbarthiadau mewn ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

